# A yw Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli troseddwyr stelcio ac aflonyddu'n effeithiol?

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner



## Adolygiad Craffu Dwys | Gorffennaf 2023

## Beth wnaethom ni...

**Asesu rheoli troseddwyr stelcio ac aflonyddu drwy:**

- Ymchwilio i broffiliau data troseddau stelcio ac aflonyddu lleol a chenedlaethol.
- Adolygu gweithgarwch craffu, arferion hyfforddi, ac adroddiadau ac argymhellion sy'n bodoli eisoes.
- Cyfweld ag arbenigwyr, aelodau staff a swyddogion allweddol.
- Hap samplu achosion stelcio ac aflonyddu.
- Ymgysylltu â dioddefwyr a chraffu ar ddata bodlonrwydd dioddefwyr.
- Ystyried defnydd yr Heddlu o orchmynion sifil ac adolygu Gorchmynion Gwarchod Rhag Stelcio.

## Pam wnaethom ni hyn...

**Er mwyn rhoi mewnwelediad annibynnol i effeithiolrwydd prosesau rheoli troseddwyr a weithredir, a diogelu dioddefwyr o ganlyniad i'r prosesau hyn.**

- Nododd y Comisiynydd Dafydd Llywelyn stelcio ac aflonyddu fel maes pwysig ar gyfer gweithgarwch craffu, gan gyfrannu at y tair blaenoriaeth plismona a nodir yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-25. *[Y Cynllun Heddlu a Throseddu: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11089/cynllun-heddlu-a-throseddu-2021-2025-dyfed-powys.pdf]*
- Mae'r Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis wedi pennu blaenoriaeth i'r Heddlu i weithio tuag at ddileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu.
- **Mewn perthynas â Chynllun y Comisiynydd, ceisiodd yr Adolygiad ddeall:**
  - Pa un ai a yw dioddefwyr stelcio ac aflonyddu'n cael eu cefnogi;
  - Pa un ai a yw ymddygiad stelcio ac aflonyddu troseddol yn y dyfodol yn cael ei atal; a
  - Pha un ai a yw'n system cyfiawnder troseddol yn cael ei defnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi a bod niwed yn cael ei atal.

**A yw Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli troseddwyr stelcio ac aflonyddu'n effeithiol?** Mewn nifer o achosion, gwelsom fod Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli troseddwyr stelcio ac aflonyddu'n effeithiol, ond nid oedd yn ddarlun cyson.

## Ein prif gasgliadau...

- ***A yw dioddefwyr yn cael eu cefnogi?*** Nid yw dioddefwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi, ond mae hap samplu'n awgrymu bod dioddefwyr yn cael eu diogelu.
- ***A yw ymddygiad troseddol yn cael ei atal?*** Mae angen gwneud mwy, yn arbennig o ran defnyddio a rheoli gorchmynion sifil, er mwyn ymdrin yn gyson a chadarn â phob troseddwr stelcio ac aflonyddu.
- ***A yw'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei defnyddio'n effeithiol?*** Mae gorchmynion sifil ac erlyniadau'n cael eu hystyried a'u defnyddio fwyfwy, ond mae tystiolaeth hefyd bod diffyg cysylltiad rhwng dealltwriaeth y dioddefydd, yr heddlu a'r llysoedd o'r ymateb i droseddu mynych a thorri amodau.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithredu neu nodi mentrau ar gyfer gwella ymateb yr heddlu i stelcio ac aflonyddu.

## Ein prif argymhellion...

1. **Darpariaeth adnoddau** – blaenoriaethu ariannu a recriwtio ar gyfer rolau hanfodol, a cheisio cyngor a chymorth arbenigol yn rhagweithiol.
2. Hyfforddiant – adolygu'r rhaglen hyfforddi Eiriolwr Stelcio, ac ystyried dysgu o Ymgyrch Soteria Bluestone.
3. Data – ehangu Dangosfyrddau Perfformiad ar gyfer craffu'n fwy manwl ar orchmynion sifil, a sicrhau mynediad hawdd ar gyfer swyddogion i gofnod llawn o hanes troseddwr o dorri amodau.
4. Ymyriadau Troseddwyr – ymgorffori'r Arf Blaenoriaethu Troseddwyr ledled yr Heddlu, ac ystyried defnyddio amrediad o ymyriadau, gan gynnwys gorchmynion sifil, fel rhan o strategaethau rheoli troseddwyr.
5. Monitro Troseddwyr – ystyried gweithredu prosesau ar gyfer rheoli gorchmynion sifil, gan gynnwys cynyddu monitro a gwaith dilynol, a chynnwys llais y dioddefydd mewn adolygiadau o orchmynion sifil.
6. Dioddefwyr – ailymweld â Chytundebau Cyswllt â Dioddefwyr ar wahanol gamau'r ymchwiliad, a sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, yn unol â'r Cytundeb.

